		2. Adolygu gweithgorau a phwyllgorau perthnasol yn y Brifysgol i sicrhau bod prif ymchwilwyr wedi'u cynrychioli.	Nac ydy	Gorffennaf 2023	Y Gweithgor Diwylliant Ymchwil/Dirprwy Reolwr Busnes Ymchwil	Mesur llwyddiant: Mae'r prif ymchwilwyr wedi'u cynrychioli ym mhob gweithgor a phwyllgorau perthnasol yn y Brifysgol .				
ECR5	Annog ymchwilwyr i ystyried manteisio ar gyfleoedd i gyfrannu at ddatblygu polisiau gyda'r nod o greu amgylchedd a diwylliant ymchwil mwy cadarnhaol o fewn eu sefydliad.	1. Byddwn yn datblygu (ac yn cyflawni) cynllun cyfathrebu clir ar gyfer staff ymchwil a'u rheolwyr. Bydd hyn yn gysylltiedig â chylch gweithgareddau blynyddol y Brifysgol, ac yn seiliedig ar feysydd blaenoriaeth y cytunwyd arnynt sy'n gysylltiedig â'r Concordat Datblygu Ymchwilwyr e.e. 10 diwrnod o ddatblygiad proffesiynol, gwobrwyo a chydabod, gyrfaoedd amrywiol ac ati.	Nac ydy	2022-23 – bwriedir ei lansio ym mis Hydref 2022 (i'w werthuso a'i addasu, os yw'n briodol, ar gyfer 2023–24 (erbyn Awst 2023) a 2024–25 (erbyn Awst 2024)	Y Tîm Datblygu Sefydliadol a Staff (OSD)/AD/y Tîm Cyfathrebu Mewnol/y Tîm Cyfathrebu Digidol	Mae ymchwilwyr yn fwy ymwybodol o gyfleoedd i ymgysylltu â pholisïau a phenderfyniadau sefydliadol perthnasol. Mesur llwyddiant: (i) Mae holl rolau'r cynrychiolwyr staff ymchwil ar bwyllgorau a gweithgorau perthnasol yn cael eu cyflawni. (ii) Cyfradd ymateb y staff ymchwil i arolygon perthnasol – h.y. arolygon pwls staff ymchwil, yr arolwg diwylliant ymchwil, a'r arolwg staff. Targedau – arolygon pwls staff ymchwil – cyfradd ymateb o 29% o leiaf (yn unol â'r gyfradd ymateb ar gyfer Arolwg Ar-lein o Yrfaoedd ym maes Ymchwil 2019); yn hafal i grwpiau staff eraill neu'n fwy na grwpiau eraill o ran yr ymateb i'r arolwg diwylliant ymchwil a'r arolwg i'r holl staff. Byddwn hefyd yn meincnodi yn erbyn cyfraddau ymateb staff ymchwil i arolygon eraill yn y DU pan fo modd, e.e. gyda CEDARS (Arolwg o Ddiwylliant, Cyflogaeth a Datblygiad ym maes Ymchwil Academaidd).				

Rhwymedigaeth	Cam gweithredu	Yn parhau/wedi'i drosglwyddo o'r cynllun gweithredu blaenorol?	Dyddiad cau	Cyfrifoldeb	Effaith benodedig y camau gweithredu (mesur llwyddiant)	Sylwadau (dewisol)	Diweddariad cynnydd	Gwir effaith y cam gweithredu (adrodd yn erbyn y mesur llwyddiant)	Canlyniad (yn parhau/wedi'i ddwyn ymlaen/dim camau gweithredu pellach)
---------------	----------------	--	-------------	-------------	---	--------------------	---------------------	--	--

ER4	Cydnabod a gweithredu ar eu rôl fel rhanddeiliaid allweddol yn eu sefydliad a'r gymuned academiaidd ehangach.	1. Byddwn yn datblygu (ac yn cyflawni) cynllun cyfathrebu clir ar gyfer staff ymchwil a'u rheolwyr. Bydd hyn yn gysylltiedig â chylch gweithgareddau blynyddol y Brifysgol, ac yn seiliedig ar feysydd blaenoriaeth y cytunwyd armynt sy'n gysylltiedig â'r Concordat Datblygu Ymchwilwyr e.e. 10 diwrnod o ddatblygiad proffesiynol, gwobrwyo a chydnabod, gyrfaoedd amrywiol ac ati.	Nac ydy	2022-23 – bwriedir ei lansio ym mis Hydref 2022 (i'w werthuso a'i addasu, os yw'n briodol, ar gyfer 2023–24 (erbyn Awst 2023) a 2024–25 (erbyn Awst 2024)	Y Tim Datblygu Sefydliadol a Staff (OSD)/AD/y Tim Cyfathrebu Mewnol/y Tim Cyfathrebu Digidol	Mae ymchwilwyr yn fwy ymwybodol o gyfleoedd i gymryd rhan mewn polisiau a phenderfyniadau sefydliadol perthnasol, a llunio amgylchedd ymchwil y sefydliad. Mesur llwyddiant: (i) Mae holl rolau'r cynrychiolwyr staff ymchwil ar bwyllgorau a gweithgorau perthnasol yn cael eu cyflawni. (ii) Cyfradd ymateb y staff ymchwil i arolygon perthnasol – h.y. arolygon pwls staff ymchwil, yr arolwg diwylliant ymchwil, a'r arolwg staff. Targedau – arolygon pwls staff ymchwil – cyfradd ymateb o 29% o leiaf (sef y gyfradd ymateb i'n Harolwg Ar-lein o Yrfaoedd ym maes Ymchwil 2019); yn hafal i grwpiau staff eraill neu'n fwy na grwpiau eraill o ran yr ymateb i'r arolwg diwylliant ymchwil a'r arolwg i'r holl staff. Byddwn hefyd yn meincnodi yn erbyn cyfraddau ymateb staff ymchwil i arolygon eraill pan fo modd, e.e. gyda CEDARS (Arolwg o Ddiwylliant, Cyflogaeth a Datblygiad ym maes Ymchwil Academiaidd).			
-----	---	--	---------	---	--	--	--	--	--

Cyflogaeth

Recriwtio ac ymsefydlu

Nodau'r rhwymedigaethau hyn yw sicrhau bod y broses o recriwtio ymchwilwyr yn agored ac yn deg a bod ymchwilwyr yn cael cyfnod i ymsefydlu'n effeithiol yn y sefydliad.

BLAENORIAETH I BOB AELOD O STAFF.

Bodlonir y rhwymedigaethau hyn drwy'r canlynol:

	Rhwymedigaeth	Cam gweithredu	Yn parhau/wedi'i drosglwyddo o'r cynllun gweithredu blaenorol?	Dyddiad cau	Cyfrifoldeb	Effaith benodedig y camau gweithredu (mesur llwyddiant)	Sylwadau (dewisol)	Diweddariad cynnydd	Gwir effaith y cam gweithredu (adrodd yn erbyn y mesur llwyddiant)	Canlyniad (yn parhau/wedi'i ddwyn ymlaen/dim camau gweithredu pellach)
--	---------------	----------------	--	-------------	-------------	---	--------------------	---------------------	--	--

Mae gennym arferion recriwtio cadarn a rhaglen ymsefydlu gynhwysfawr ar waith. Bydd y rhain yn parhau i gael eu hadolygu yn ôl yr arfer, a bydd ein gwaith i wella'r rhain yn adlewyrchu'r blaenoriaethau a nodir yn ein Strategaeth Pobl (2018–2023). Yn ystod 2022–23, byddwn yn dychwelyd i'r gwaith o gyflawni ein rhaglen sefydlu 'Croeso i Gaerdydd' wyneb yn wyneb. Ategir hyn bellach gan ystod o adnoddau ar-lein a ddatblygwyd yn ystod y pandemig, gan gynnwys fideo yn cyflwyno egwyddorion y Concordat ac ymrwymiad Prifysgol Caerdydd i weithredu ei egwyddorion.

EIN HYMRWYMIADAU PARHAUS I STAFF YMCHWIL

- Byddwn ni'n parhau i fonitro'r broses o recriwtio staff ymchwil, presenoldeb yn ystod y cyfnod ymsefydlu, ac adborth ar ymsefydlu, fel rhan o'n hadroddiad blynyddol.

E11	Sicrhau proses recriwtio agored, dryloyw seiliedig ar deilyngdod, sy'n denu ymchwilwyr rhagorol, gan ddefnyddio arferion dethol a phenodi teg a chynhwysol.									
E12	Darparu cyfnod ymsefydlu effeithiol, gan sicrhau bod ymchwilwyr wedi'u hintegreiddio yn y gymuned a'u bod yn ymwybodol o'r polisiau a'r arferion sy'n berthnasol i'w swydd.									

Cydnabod, gwobrwyo a dyrchafu

Nodau'r rhwymedigaethau hyn yw sicrhau bod ymchwilwyr yn cael eu cydnabod mewn modd teg a chynhwysol fel rhan o ddatblygu eu gyrfa.

MAES BLAENORIAETH STAFF YMCHWIL #3

Dyma'r trydydd o'n chwe maes blaenoriaeth ac mae wedi'i amlygu'n faes lle mae angen datblygu gwaith ymhellach ar sail arolygon a gynhaliwyd o'n staff ymchwil (yn fwyaf diweddar Arolwg Ar-lein o Yrfaeod ym maes Ymchwil 2019 ac adroddiad Cymdeithas Staff Ymchwil Prifysgol Caerdydd (CURSA) 2020).

Byddwn yn adeiladu ar y gwaith o'r cyfnod adolygu diwethaf i egluro prosesau a chynlluniau cyfredol, a chodi ymwybyddiaeth ohonynt, i gefnogi cyfleoedd i wobrwyo a chydabod ymchwilwyr ym Mhrifysgol Caerdydd. Byddwn hefyd yn cwmpasu dichonoldeb ymestyn ein llwybrau presennol ar gyfer datblygiad ar

	Rhwymedigaeth	Cam gweithredu	Yn parhau/wedi'i drosglwyddo o'r cynllun gweithredu blaenorol?	Dyddiad cau	Cyfrifoldeb	Effaith benodedig y camau gweithredu (mesur llwyddiant)	Sylwadau (dewisol)	Diweddariad cynnydd	Gwir effaith y cam gweithredu (adrodd yn erbyn y mesur llwyddiant)	Canlyniad (yn parhau/wedi'i ddwyn ymlaen/dim camau gweithredu pellach)
--	---------------	----------------	--	-------------	-------------	---	--------------------	---------------------	--	--

sail perfformiad unigol, yn ogystal ag archwilio cyfleoedd ar gyfer gwella'r ffyrdd yr ydym yn datblygu, cydnabod a gwobrwyo annibyniaeth staff sy'n ymwneud ag ymchwil yn unig. Bydd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Diwylliant Ymchwil ar Amlygu, Gwobrwyo a Chydnabod yn mynd i'r afael â'r gwaith hwn.

EIN HYMRWYMIADAU PARHAUS I STAFF YMCHWIL

Byddwn yn parhau i wneud y canlynol:

- cynnig cynyddiadau blynyddol i gydnabod datblygiad a dilyniant unigol o fewn ein graddau cyflogaeth.
- cynnig cynllun dyrchafiaeth academaidd blynyddol i staff sydd ar y llwybr gyfaol ymchwil yn unig, gan hwyluso dilyniant i swyddi Uwch-gymrawd Ymchwil, Prif Gymrawd Ymchwil a Chymrawd Ymchwil Athrawol, i gydnabod proffil a pherfformiad unigol.
- cynnig proses adolygu graddau'r Brifysgol ar gyfer ail-werthuso gradd y rolau ar gyfer ymchwilwyr a gyflogir ar raddau 5 i 7. Mae'r broses hon yn ei gwneud yn bosibl ailraddio rôl pan fydd wedi newid yn sylweddol, a hynny'n unol ag anghenion yr ysgol neu'r Brifysgol. O Hydref 2022 ymlaen, byddwn yn darparu canllawiau clir, pwrpasol, ar y broses ar gyfer staff ymchwil sy'n dymuno gwneud cais am adolygiad graddio, ynghyd â disgwyliadau delfrydol ar gyfer rolau fesul gradd ar gyfer y llwybr gyfaol ymchwil yn unig.
- cynnig gweithdai ar gyfer staff sy'n ymwneud ag ymchwil yn unig ar bynciau'n cynnwys 'Dyrchafiadau Academaidd' a 'Gwobrau, Buddion a Chydnabyddiaeth', yn ogystal â mynediad at sesiynau ar 'Egluro'r Broses Ailraddio'.
- gweithredu Cynllun Gwobrwyo Cyfraniad Eithriadol (OCAS) ar gyfer yr holl staff ar raddau 1 i 8. Mae'r cynllun hwn yn cynnig gwobr ariannol ar ffurf (i) taliad untro; (ii) taliadau cynyddraddol cyflym; neu (iii) mynediad at y pwyntiau cyfraniad; i gydnabod perfformiad eithriadol.
- dathlu cyfraniad yr holl staff drwy ein Gwobrau Dathlu Rhagoriaeth, gyda chategoriâu penodol ar gyfer, ymhlith eraill, seren newydd – academydd ar ddechrau ei yrfa (sy'n agored i staff ymchwil); rhagoriaeth ym maes ymchwil; rhagoriaeth ym maes arloesi a menter, a rhagoriaeth mewn cenhadaeth ddinesig.

EI3	Darparu llwybrau cydnabod, gwobrwyo a dyrchafu clir a thryloyw, ar sail teilyngdod, sy'n cydnabod yr ystod lawn o gyfraniadau ymchwilwyr a natur amrywiol amgylchiadau personol.	1. Byddwn yn lansio, gwerthuso a mireinio ein hadnoddau ar y we ar gyfer staff ymchwil a'u rheolwyr, gan gynnwys gwybodaeth glir am wobrau, buddion a threfniadau cydnabod ymchwilwyr.	Ydy	Rhagfyr 2022	Y Tîm Datblygu Sefydliadol a Staff (OSD)/y Tîm Cyfathrebu Digidol	Dealltwriaeth fwy eglur a gwell o'r prosesau presennol sydd ar waith ar gyfer cydnabod, gwobrwyo a dyrchafu staff ymchwil Mesur llwyddiant: Targed cychwynnol – anelir at sicrhau bod 60% o'r staff ymchwil a holir (arolwg pwls) yn dangos eu bod yn ymwybodol o brosesau gwobrwyo a chydnabod sydd ar waith i gefnogi ymchwilwyr. Mae 60% o'r staff ymchwil a holir yn dangos eu bod yn fodlon ar y cymorth sydd ar gael yn y Brifysgol o ran datblygu gyrfa. Dilyniant o radd 5 i 7: dealltwriaeth fwy eglur o'r ffyrdd y gellir symud ymlaen o fewn y				
-----	--	--	-----	--------------	---	--	--	--	--	--

Rhwymedigaeth	Cam gweithredu	Yn parhau/wedi'i drosglwyddo o'r cynllun gweithredu blaenorol?	Dyddiad cau	Cyfrifoldeb	Effaith benodedig y camau gweithredu (mesur llwyddiant)	Sylwadau (dewisol)	Diweddariad cynnydd	Gwir effaith y cam gweithredu (adrodd yn erbyn y mesur llwyddiant)	Canlyniad (yn parhau/wedi'i ddwyn ymlaen/dim camau gweithredu pellach)
---------------	----------------	--	-------------	-------------	---	--------------------	---------------------	--	--

	Darparu llwybrau clir, tryloyw sy'n seiliedig ar deilyngdod ar gyfer cydnabod, gwobrwyo a dyrchafu sy'n cydnabod yr ystod lawn o gyfraniadau ymchwilwyr a natur amrywiol amgylchiadau personol (parhad).	2. Byddwn yn datblygu (ac yn cyflawni) cynllun cyfathrebu clir ar gyfer staff ymchwil a'u rheolwyr. Bydd hyn yn gysylltiedig â chylch gweithgareddau blynyddol y Brifysgol, ac yn seiliedig ar feysydd blaenoriaeth y cytunwyd arnynt sy'n gysylltiedig â'r Concordat Datblygu Ymchwilwyr e.e. 10 diwrnod o ddatblygiad proffesiynol, gwobrwyo a chydabod, gyrfaoedd amrywiol ac ati.	Nac ydy	2022-23 – bwriedir ei lansio ym mis Hydref 2022 (i'w werthuso a'i addasu, os yw'n briodol, ar gyfer 2023–24 (erbyn Awst 2023) a 2024–25 (erbyn Awst 2024))	Y Tim Datblygu Sefydliadol a Staff (OSD)/AD/y Tim Cyfathrebu Mewnol/y Tim Cyfathrebu Digidol	system bresennol, a'r hyn y mae angen i ymchwilwyr unigol ei arddangos/datblygu. Mae ymchwilwyr yn dangos eu bod yn deall sut i ddefnyddio'r systemau presennol. Anelir at sicrhau bod 60% o staff ymchwil a holir (arolwg pwls), yn y lle cyntaf, yn deall sut mae symud ymlaen o fewn y system bresennol. Mwy o eglurder ynghylch dyddiadau allweddol ar gyfer prosesau cydnabod, gwobrwyo a dyrchafu, ac ynghylch y prosesau eu hunain. Mesurau llwyddiant fel y nodwyd uchod: anelir at sicrhau bod 60% o staff ymchwil a holwyd (arolwg pwls), yn y lle cyntaf, yn dangos eu bod yn ymwybodol o'r prosesau gwobrwyo a chydabod sydd ar waith i gefnogi ymchwilwyr.			
--	--	---	---------	--	--	---	--	--	--

Rhwymedigaeth	Cam gweithredu	Yn parhau/wedi'i drosglwyddo o'r cynllun gweithredu blaenorol?	Dyddiad cau	Cyfrifoldeb	Effaith benodedig y camau gweithredu (mesur llwyddiant)	Sylwadau (dewisol)	Diweddariad cynnydd	Gwir effaith y cam gweithredu (adrodd yn erbyn y mesur llwyddiant)	Canlyniad (yn parhau/wedi'i ddwyn ymlaen/dim camau gweithredu pellach)
---------------	----------------	--	-------------	-------------	---	--------------------	---------------------	--	--

Darparu llwybrau clir, tryloyw sy'n seiliedig ar deilyngdod ar gyfer cydnabod, gwobrwyo a dyrchafu sy'n cydnabod yr ystod lawn o gyfraniadau ymchwilwyr a natur amrywiol amgylchiadau personol (parhad).	3. Byddwn yn adolygu'r cyfleoedd dilyniant sydd ar gael i staff ymchwil symud o radd 5 i 7, a'r ffyrdd y mae annibyniaeth yn cael ei chefnogi a'i gwobrwyo.	Nac ydy	Cerrig milltir allweddol: 2022–23 – gwaith cwmpasu; adroddiad i'w lunio erbyn dechrau blwyddyn academaidd 2023–24 (Medi 2023). Penderfyniadau (i) a (ii) wedi'u cymeradwyo gan Fwrdd Gweithredol y Brifysgol a'r Senedd erbyn diwedd blwyddyn academaidd 2023–24 (Gorffennaf 2024), ac unrhyw brosesau newydd, neu ddiwygiedig y Brifysgol wedi'u cymeradwyo os yw'n briodol. Codi ymwybyddiaeth yn ystod blwyddyn academaidd 2024–25 (Hydref 2024 – Gorffennaf 2025)	Y Gweithgor Diwylliant Ymchwil/AD/ Y Tîm Datblygu Sefydliadol a Staff (OSD)	Yn seiliedig ar waith cwmpasu tryloyw, bydd y canlyniad ar ffurf dau benderfyniad clir gan y Brifysgol ynglŷn â'r canlynol: (i) dilyniant – a ddylid sicrhau bod proses ffurfiol ar waith ar gyfer dilyniant o radd 5 i radd 7 ar sail perfformiad unigol? (ii) annibyniaeth – beth yw safbwynt y Brifysgol ar ddatblygu, gwobrwyo a chydnabod annibyniaeth staff sy'n ymwneud ag ymchwil yn unig? Yn ogystal, bydd staff ymchwil, eu rheolwyr, uwch-arweinwyr a staff sy'n cefnogi ymchwilwyr yn ymwybodol o safbwynt y Brifysgol o ran pob un o'r rhain, ac yn eu deall. (I'w fesur drwy holiadur – pennir targedau ar sail canlyniadau'r arolygon uchod).				
--	---	---------	---	---	---	--	--	--	--

	Rhwymedigaeth	Cam gweithredu	Yn parhau/wedi'i drosglwyddo o'r cynllun gweithredu blaenorol?	Dyddiad cau	Cyfrifoldeb	Effaith benodedig y camau gweithredu (mesur llwyddiant)	Sylwadau (dewisol)	Diweddariad cynnydd	Gwir effaith y cam gweithredu (adrodd yn erbyn y mesur llwyddiant)	Canlyniad (yn parhau/wedi'i ddwyn ymlaen/dim camau gweithredu pellach)
--	---------------	----------------	--	-------------	-------------	---	--------------------	---------------------	--	--

EM3	Mae rheolwyr yn ymrwmo i recriwtio, dyrchafu a gwobrwo ymchwilwyr mewn modd cynhwysol, teg a thryloyw, a dangos tystiolaeth o hynny.	1. Byddwn craffu ar y prosesau ar gyfer recriwtio, dyrchafu a gwobrwo ein staff ymchwil, yn llunio adroddiad blynyddol ar staff ymchwil sy'n seiliedig ar fodel 2021, ac yn ei fireinio yn unol ag adborth gan yr ymchwilwyr.	Nac ydy	Hydref 2022 Hydref 2023 Hydref 2024	Y Tim Datblygu Sefydliadol a Staff (OSD)	Darparu data sy'n eglur a hawdd ei ddeall i'w gwneud yn bosibl inni fonitro tueddiadau o ran recriwtio, dyrchafu a gwobrwo ymchwilwyr a gweithredu ar y wybodaeth hon fel y bo'n briodol. Mesurau llwyddiant: Tri adroddiad blynyddol wedi'u dosbarthu i'r holl randdeiliaid a chyrrff perthnasol wedi craffu arnynt.				
-----	--	---	---------	---	--	--	--	--	--	--

Cyfrifoldebau ac adrodd

Amcanion y rhwymedigaethau hyn yw sicrhau bod ymchwilwyr a'u rheolwyr yn deall eu rhwymedigaethau a'u cyfrifoldebau ac yn gweithredu arnynt.

BLAENORIAETH I BOB AELOD O STAFF.

Mae'n bwysig inni bod *pob* aelod o staff yn deall ei rhwymedigaethau a'i cyfrifoldebau yn glir a'i fod yn gweithredu ar y rhain yn unol â hynny. Mae gennym brosesau cadarn ar waith i gefnogi hyn – cynnod sefydlu, cynnod prawf, adolygu datblygiad perfformiad yn flynyddol, yn ogystal â phrosesau clir ar gyfer cyfathrebu mewnol.

O ran cyfrifoldebau ychwanegol a gofynion adrodd **staff sy'n ymwneud ag ymchwil**, byddwn yn parhau i sicrhau bod ymchwilwyr a'u rheolwyr yn ymwybodol ohonynt ac yn gweithredu yn unol â'n Cod Ymarfer Gonestrwydd a Llywodraethu Ymchwil.

Bydd ein camau gweithredu o dan Faes Blaenoriaeth #1, ynghylch sicrhau cyfathrebu well i **staff ymchwil a'u rheolwyr** a chodi eu ac hymwybyddiaeth, hefyd yn cefnogi gwaith yn y maes hwn.

EM2	Mae rheolwyr yn ymgyfarwyddo â deddfwriaeth cyflogaeth berthnasol a chodau ymarfer, polisiau sefydliadol, a thelerau ac amodau									
-----	--	--	--	--	--	--	--	--	--	--

	Rhwymedigaeth	Cam gweithredu	Yn parhau/wedi'i drosglwyddo o'r cynllun gweithredu blaenorol?	Dyddiad cau	Cyfrifoldeb	Effaith benodedig y camau gweithredu (mesur llwyddiant)	Sylwadau (dewisol)	Diweddariad cynnydd	Gwir effaith y cam gweithredu (adrodd yn erbyn y mesur llwyddiant)	Canlyniad (yn parhau/wedi'i ddwyn ymlaen/dim camau gweithredu pellach)
--	---------------	----------------	--	-------------	-------------	---	--------------------	---------------------	--	--

	cyllid grant, ac yn gweithio yn unol â nhw.									
ER1	Bydd yr ymchwilwyr yn sicrhau eu bod yn gweithio yn unol â pholisïau sefydliadol, gweithdrefnau a deddfwriaeth cyflogaeth, yn ogystal â gofynion eu hariannwr.									
ER2	Mae ymchwilwyr yn deall eu rhwymedigaethau a'u cyfrifoldebau o ran adrodd.									

Rheoli pobl

Nodau'r rhwymedigaethau hyn yw sicrhau bod ymchwilwyr yn cael eu rheoli'n dda ac yn cael adolygiadau perfformiad effeithiol ac amserol.

BLAENORIAETH I BOB AELOD O STAFF.

Bodlonir y rhwymedigaethau hyn drwy'r canlynol:

Rydym wedi nodi 'colegoldeb, arweinyddiaeth a rheolaeth' yn un o'n saith gwerth craidd ym Mhrifysgol Caerdydd, ac rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo 'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth sy'n angenrheidiol ar gyfer defnyddio adnoddau'r prifysgol mewn modd effeithiol a chyfrifol' yn ogystal ag ymdrechu 'i gynnal lles ein staff a'n myfyrwyr'. Un o bum piler ein Strategaeth Pobl yw 'diwylliant gwaith', ac mae datblygu arweinyddiaeth yn faes allweddol o fewn hyn, er ei fod hefyd yn sail i bob un o'r pileri eraill, gan gynnwys 'lles staff' a 'chynhwysiant i bawb'. Mae gennym gynllun gweithredol ar waith i gefnogi'r strategaeth hon.

Fel yr amlinellir isod, ein blaenoriaeth ar gyfer y cyfnod adolygu sydd i ddod yw ailsefydlu diwylliant cryf o gynnal a chofnodi adolygiad blynyddol o ddatblygiad perfformiad ar gyfer pob aelod o staff yn dilyn newid a wnaed i'n gweithdrefnau arferol yn ystod y blynyddoedd pan oedd y pandemig yn ei anterth.

CYNLLUN DIWYLLIANT YMCHWIL

Nod ein cynllun diwylliant ymchwil sy'n dod i'r amlwg fydd ceisio gwella'r ffordd rydym yn cefnogi a datblygu rheolwyr ymchwil ac arweinwyr o fewn y sefydliad, yn ogystal â cheisio egluro a chodi ymwybyddiaeth o'n disgwyliadau o arweinwyr a rheolwyr ymchwil. Fel y nodwyd uchod, bydd un o'n tri gnŵp gorchwyl a gorffen sydd ynghlwm wrth roi'r cynllun gweithredu diwylliant ymchwil ar waith yn canolbwyntio ar 'Hyfforddiant a Chymorth'.

EIN HYMRWYMIADAU PARHAUS I BOB AELOD O STAFF:

Ar hyn o bryd mae'r mesurau canlynol gennym ar waith a byddwn yn parhau i'w cynnig:

Rhwymedigaeth	Cam gweithredu	Yn parhau/wedi'i drosglwyddo o'r cynllun gweithredu blaenorol?	Dyddiad cau	Cyfrifoldeb	Effaith benodedig y camau gweithredu (mesur llwyddiant)	Sylwadau (dewisol)	Diweddariad cynnydd	Gwir effaith y cam gweithredu (adrodd yn erbyn y mesur llwyddiant)	Canlyniad (yn parhau/wedi'i ddwyn ymlaen/dim camau gweithredu pellach)
---------------	----------------	--	-------------	-------------	---	--------------------	---------------------	--	--

<ul style="list-style-type: none"> datganiad clir o ddisgwyliadau o unrhyw aelod o staff sydd â chyfrifoldebau rheoli llinell, y mae wedi'i gyhoeddi ar y fewnwyd i'n staff. canllawiau wedi'u cyhoeddi ar rôl y rheolwr llinell academiaidd. Adolygiad blynyddol o ddatblygiad perfformiad sy'n orfodol i bob aelod o staff nad ydynt ar gyfnod prawf. cynllun dyrchafiadau academiaidd sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob ymgeisydd am ddyrchafiadau academiaidd ddarparu tystiolaeth o 'golegoldeb a chyfraniad effeithiol at ddinasyddiaeth y Brifysgol'. Mae hyn yn cynnwys agweddau ar arweinyddiaeth a rheoli pobl, megis 'cefnogi datblygiad gyrfa cydweithwyr, gan gynnwys mentora, cefnogi, adolygu cymheiriaid a chydweithrediadau perthnasol, yn enwedig mewn perthynas â staff sydd ar ddechrau eu gyrfa'; 'ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau yn yr ysgol, coleg a/ neu Brifysgol'; a 'chyfrannu at gymuned gynhwysol drwy hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth'. gwobr am ragoriaeth ym maes arweinyddiaeth yn ein Gwobrau Dathlu Rhagoriaeth flynyddol. portffolio helaeth o gyfleoedd datblygiad hyfforddiant arweinyddiaeth a rheolaeth sy'n adlewyrchu cyfnodau gwahanol o ran gyrfa, er enghraifft, rhaglen i ddeoniaid newydd, rhaglen ar gyfer penaethiaid ysgol newydd, rhaglen arweinyddiaeth athrawol, rhaglen ar symud i rôl arweinyddiaeth ym maes ymchwil ac ati, a hefyd agweddau gwahanol ar arweinyddiaeth a rheolaeth, megis rheoli o bell, dirprwyo'n effeithiol, a rheoli straen pobl eraill. mynediad i'r holl staff i'r holl fodiwlau 'Linked-in Learning', sy'n cynnwys ystod eang o gyrsiau ar-lein sy'n ymdrin ag agweddau gwahanol ar arweinyddiaeth a rheolaeth, fel 'rheoli timau'; 'sgiliau hyfforddi ar gyfer arweinwyr a rheolwyr' a 'hanfodion rheoli perfformiad' ac ati. hyfforddiant gorfodol i reolwyr llinell mewn dau o'n tri choleg, a rhaglen debyg yn ein trydydd coleg, yr argymhellir yn gryf i bob rheolwr llinell ei mynychu. 								
---	--	--	--	--	--	--	--	--

E14	Darparu cyfleoedd hyfforddi effeithiol ar reoli llinell a rheoli prosiectau i reolwyr ymchwilwyr, penaethiaid adran a rolau cyfatebol.								
E15	Sicrhau bod arferion rhagorol o ran rheoli pobl yn cael eu hyrwyddo ar draws y sefydliad ac wedi'u hymwreiddio mewn diwylliant sefydliadol, drwy arfarniadau blynyddol, meini prawf dyrchafu tryloyw, a dyrannu llwythi gwaith.								
EM1	Mae rheolwyr yn ymgymryd â chyfleoedd hyfforddi a datblygu perthnasol er fel eu bod yn gallu rheoli								

	Rhwymedigaeth	Cam gweithredu	Yn parhau/wedi'i drosglwyddo o'r cynllun gweithredu blaenorol?	Dyddiad cau	Cyfrifoldeb	Effaith benodedig y camau gweithredu (mesur llwyddiant)	Sylwadau (dewisol)	Diweddariad cynnydd	Gwir effaith y cam gweithredu (adrodd yn erbyn y mesur llwyddiant)	Canlyniad (yn parhau/wedi'i ddwyn ymlaen/dim camau gweithredu pellach)
--	---------------	----------------	--	-------------	-------------	---	--------------------	---------------------	--	--

	ymchwilwyr yn effeithiol a chyflawni eu dyletswydd gofal.									
EM4	Mae rheolwyr yn cymryd rhan weithredol mewn prosesau rheoli perfformiad adeiladol rheolaidd gyda'u hymchwilwyr.									
ER3	Mae ymchwilwyr yn cymryd rhan gadarnhaol mewn trafodaethau rheoli perfformiad ac adolygiadau gyda'u rheolwyr.									

Diogelwch swydd

Nod y rhwymedigaeth hon yw gwella diogelwch swyddi ymchwilwyr.

MAES BLAENORIAETH STAFF YMCHWIL #4

Dyma'r pedwerydd o'n chwe maes blaenoriaeth a nododd ein Gweithgor Llwybrau Ymchwilwyr mai dyma'r flaenoriaeth bennaf o ran gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i brofiad ymchwilwyr.

Mae Prifysgol Caerdydd wedi ymrwmo i wella diogelwch swyddi ei staff, a dangosodd data 2019–20 HESA fod cyfran y staff academiaidd a gyflogir ar gontractau tymor penodol yn uwch yn 20 o'r 24 o brifysgolion y Grŵp Russell nag ydyw ym Mhrifysgol Caerdydd. Ers cynnal adolygiad graddfa lawn o'n defnydd o gontractau tymor penodol yn 2010, a'u diwygio, rydym wedi gwneud y canlynol:

- rhoi contractau penagored i'r holl staff sydd â mwy na phedair blynedd o wasanaeth ac adnewyddu un neu ragor o gontractau.
- sicrhau eglurder ar bob cam yn y berthynas gyflogaeth drwy rybuddio staff ynghylch ffactorau perthnasol a allai effeithio ar eu statws cyflogaeth parhaus yn y llythyr penodi.
- cael system adleoli ar waith yn rhoi mynediad blaenoriaeth i swyddi gwag a gododd yn y Brifysgol i staff â mwy na deuddeg mis o wasanaeth, yr oeddent wedi'u nodi'n bobl a oedd mewn perygl o golli eu swyddi.
- cynnig amddiffyniad cyflog trosiannol i staff sy'n derbyn adleoliad i swydd ar radd is.

Ar ôl gwneud cynnydd o ran lleihau ein defnydd o gontractau tymor penodol, byddwn nawr yn ceisio archwilio ffyrdd amgen o reoli'r berthynas rhwng ffrydiau incwm sefydlog a gwaith prosiect tymor byr a'r contractau cyflogaeth rydym yn gallu eu cynnig.

EIN HYMRWYMIADAU PARHAUS I STAFF YMCHWIL

Rhwymedigaeth	Cam gweithredu	Yn parhau/wedi'i drosglwyddo o'r cynllun gweithredu blaenorol?	Dyddiad cau	Cyfrifoldeb	Effaith benodedig y camau gweithredu (mesur llwyddiant)	Sylwadau (dewisol)	Diweddariad cynnydd	Gwir effaith y cam gweithredu (adrodd yn erbyn y mesur llwyddiant)	Canlyniad (yn parhau/wedi'i ddwyn ymlaen/dim camau gweithredu pellach)
---------------	----------------	--	-------------	-------------	---	--------------------	---------------------	--	--

<ul style="list-style-type: none"> Byddwn yn parhau i fonitro ein defnydd o wahanol fathau o gontractau cyflogaeth ymhlith y staff ymchwil ac yn adrodd ar hyn. 										
E16	Ceisio gwella diogelwch swyddi i ymchwilwyr, er enghraifft drwy brosesau adleoli mwy effeithiol a mwy o ddefnydd o gontractau penagored, ac adrodd ar gynnydd.	1. Byddwn yn archwilio ffyrdd amgen o reoli'r berthynas rhwng ffrydiau incwm sefydlog a gwaith prosiect tymor byr a'r contractau cyflogaeth yr ydym yn gallu eu cynnig. Fel rhan o'r gwaith hwn byddwn yn gwneud y canlynol: (i) adolygu ein defnydd o ffactorau perthnasol mewn contractau penagored, a hynny mewn ymgynghoriad â'r undebau llafur; (ii) adolygu modelau cyfredol ar gyfer cyflogi staff ymchwil ym Mhrifysgol Caerdydd; (iii) adolygu modelau amgen yn y sector; (iv) ystyried treialu unrhyw fodelau	Nac ydy.	Gorffennaf 2025 (mae cerrig milltir allweddol wedi'u nodi yn y golofn effaith)	AD/Y Tim Datblygu Sefydliadol a Staff (OSD)/y Gweithgor Diwylliant Ymchwil/y Gweithgor Llwybrau Ymchwilwyr	Erbyn diwedd blwyddyn 1 (2022–23) byddwn wedi adolygu ein defnydd o gontractau ar gyfer cyflogi staff ymchwil ym Mhrifysgol Caerdydd a chyhoeddi canlyniadau. Byddwn hefyd yn darparu canllawiau ar sut y gellir rhoi contractau penagored i staff ymchwil o dan systemau <i>cyfredol</i> y Brifysgol, pan fo hynny'n briodol ac, ym mlynnyddoedd 2 a 3, byddwn yn monitro a yw hyn yn arwain at fwy o ddefnydd o gontractau penagored. Byddwn hefyd yn adrodd yn flynyddol am y defnydd o'r cynllun adleoli. Erbyn diwedd blwyddyn 2 (2023–24) byddwn (i) wedi gweithio gyda'r undebau llafur i adolygu ein defnydd o ffactorau perthnasol yn ein contractau penagored a chadarnhau penderfyniad ynghylch eu defnydd yn y dyfodol, gan arwain at fwy o eglurder ac, os yw'n briodol, gweithdrefnau a phrosesau diwygiedig. (ii) wedi cael penderfyniad gan y Brifysgol ynglŷn â dichonoldeb ymestyn ein defnydd o gontractau penagored drwy fabwysiadu modelau cyflogaeth amgen. (iii) wedi dylunio, gan ddibynnu ar ganlyniadau (i) a (ii), gynllunio pilot ar gyfer cyflwyno newidiadau, gan gynnwys profion clir o effeithiolrwydd.	Mesurau CAMPUS: oherwydd nad yw canlyniadau'r gwaith hwn wedi'u penderfynu eto mae'n anodd pennu mesurau CAMPUS ystyrlon. Mae effaith gyffredinol y gwaith hwn wedi'i chynllunio i wella diogelwch swyddi ymhlith ein staff ymchwil. Fodd bynnag, rydym yn rhagweld y bydd mesurau CAMPUS yn cynnwys – ond nid yn gyfyngedig i – nifer cynyddol o staff ymchwil sydd ar gontractau penagored, a byddwn yn gosod targedau ynglŷn â			

	Rhwymedigaeth	Cam gweithredu	Yn parhau/wedi'i drosglwyddo o'r cynllun gweithredu blaenorol?	Dyddiad cau	Cyfrifoldeb	Effaith benodedig y camau gweithredu (mesur llwyddiant)	Sylwadau (dewisol)	Diweddariad cynnydd	Gwir effaith y cam gweithredu (adrodd yn erbyn y mesur llwyddiant)	Canlyniad (yn parhau/wedi'i ddwyn ymlaen/dim camau gweithredu pellach)
--	---------------	----------------	--	-------------	-------------	---	--------------------	---------------------	--	--

		cyflogaeth amgen priodol a nodwyd yn (ii) a (iii) uchod); (v) datblygu dull systematig ac effeithiol o adrodd ar ddefnyddio ein cynllun adleoli drwy lwybr gyrfa.					safbwyntiau staff ymchwil ynghylch diogelwch swyddi ym Mhrifysgol Caerdydd.			
		2. Byddwn yn ceisio dylanwadu ar ddadleuon cenedlaethol ynghylch diogelwch swyddi ac adeiladu ar ein perthynas â CCAUC a'r sefydliadau addysg uwch eraill yng Nghymru er mwyn archwilio beth fyddai'n bosibl i ni ei gyflawni fel gwlad ddatganoledig, o ran (i) gwella diogelwch swyddi i ymchwilwyr, a (ii) yr hyn y byddai'n galw am newid systemig mwy ar draws y DU.	Nac ydy	Gorffennaf 2025	Y Rhag Is-Ganghellor Ymchwil/Y Deon Amgylchedd a Diwylliant Ymchwil/AD/Y Tîm Datblygu Sefydliadol a Staff (OSD)/gyda'r Gwasanaethau Ymchwil ac Arloesi (RIS)	Effaith wedi'i thargedu: Dod ag arbenigedd profesiynol a chynrychiolwyr o bob grŵp rhanddeiliaid ynghyd, gan gynnwys arianwyr, o bob cwr o Gymru.				

	Rhwymedigaeth	Cam gweithredu	Yn parhau/wedi'i drosglwyddo o'r cynllun gweithredu blaenorol?	Dyddiad cau	Cyfrifoldeb	Effaith benodedig y camau gweithredu (mesur llwyddiant)	Sylwadau (dewisol)	Diweddariad cynnydd	Gwir effaith y cam gweithredu (adrodd yn erbyn y mesur llwyddiant)	Canlyniad (yn parhau/wedi'i ddwyn ymlaen/dim camau gweithredu pellach)
--	---------------	----------------	--	-------------	-------------	---	--------------------	---------------------	--	--

Datblygiad Proffesiynol a Gyrfao	
Hyrwyddo datblygiad proffesiynol	
Nodau'r rhwymedigaethau hyn yw hyrwyddo pwysigrwydd datblygiad proffesiynol a sicrhau bod gan ymchwilwyr yr amser i gymryd rhan ynddo.	
MAES BLAENORIAETH STAFF YMCHWIL #5	
<p>Dyma'r pumed o'n chwe maes blaenoriaeth ac mae'n adeiladu ar y gwaith peilot a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod adolygu diwethaf i ddarparu arweiniad ar y gwahanol fathau o ddatblygiad a allai gyfrannu at isafswm o 10 diwrnod o ddatblygiad proffesiynol y flwyddyn i staff ymchwil.</p> <p>CYNLLUN DIWYLLIANT YMCHWIL Mae darparu rhaglen hyfforddi hyblyg a chreadigol i'r holl staff sy'n ymwneud ag ymchwil, sy'n hyrwyddo arferion ymchwil da ac yn cefnogi pobl i ddatblygu gyrfa, wrth wraidd ein Cynllun Diwylliant Ymchwil sy'n dod i'r amlwg a bydd y gwaith hwn yn cael ei gefnogi gan grŵp gorchwyl a gorffen y Brifysgol yn ystod blwyddyn academaidd 2022–23.</p> <p>Ffocws ein Cynllun Gweithredu Concordat ar gyfer y cyfnod nesaf felly fydd codi ymwybyddiaeth o'n hymrwymiad i gefnogi datblygiad ymchwilwyr yn ehangach ac, yn benodol, ein haddewid y bydd o leiaf 10 diwrnod o ddatblygiad proffesiynol parhaus y flwyddyn, pro rata, ar gael i bob aelod o staff ymchwil.</p> <p>EIN HYMRWYMIADAU PARHAUS I STAFF YMCHWIL Yn ogystal â'r cyfleoedd datblygu staff sydd ar gael i'r holl staff, megis cyrsiau byr, rhaglenni datblygu a chynllun mentora, byddwn yn parhau i gynnig y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhaglen 'Ymchwilydd Caerdydd' o gyfleoedd datblygu. Mae'r rhaglen hyfforddiant a datblygu rhad ac am ddim hon, ar gyfer yr holl staff sy'n cael eu cyflogi o fewn y llwybr ymchwil yn unig, yn cynnig ystod eang o gyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus, gan gwmpasu gweithdai ymarferol ar gyfer datblygu sgiliau allweddol, yn ogystal â sesiynau sy'n seiliedig ar wybodaeth a hyfforddiant un i un. • 'rhestr chwarae' o gyfleoedd dysgu ar-lein perthnasol a gynigir drwy ein trwydded sefydliadol ar gyfer Linked-In Learning. • Mynediad at Raglen Cymrodoriaeth Gyswilt Prifysgol Caerdydd, sef rhaglen ddatblygu broffesiynol sydd wedi'i chynllunio ar gyfer y bobl hynny sy'n newydd i feysydd addysgu a chefnogi dysgu; a/neu'r rheini sy'n addysgu neu'n cefnogi dysgu fel rhan o'u rôl, er efallai ar raddfa gyfyngedig. • Cyfleoedd i ddod yn aelod o bwyllgor ar lefel ysgol, coleg a phrifysgol. • Cyfleoedd i oruchwylio myfyrwyr ymchwil. Ers 1 Awst 2021, mae Polisi'r Brifysgol ar Oruchwylio Myfyrwyr Ymchwil wedi nodi'n glir yr ystyrir bod pob aelod o staff ymchwil annibynnol yn gymwys i fod yn oruchwyliwyr myfyrwyr ymchwil. Mae hyn yn cynnwys pob aelod o staff ymchwil ar radd 7 ac uwch (Cymrawd Ymchwil), fel yr adlewyrchir yn y disgrifiadau rôl generig ar gyfer y graddau hyn, ond mae hefyd yn cydnabod bod rhai ymchwilwyr a gyflogir ar radd 6 yn staff ymchwil annibynnol, sefydledig ac nad ydynt yn ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa. • Mynediad i fentrau traws-brifysgol/sector, megis Crwsibl Cymru (rhaglen ddatblygu arobryn, dan arweiniad Prifysgol Caerdydd), rhaglenni datblygu GW4 a Researchers 14, a phrosiect mentora Ehangu Gorwelion Ymddiriedolaeth Wellcome. <p>Byddwn hefyd yn parhau i fonitro ac adrodd ar y graddau y mae staff ymchwil yn manteisio ar gyfleoedd datblygu ffurfiol, drwy ein Hadroddiad Staff Ymchwil Blynyddol, yn ogystal â'r mathau anffurfiol hynny o ddatblygiad a gynhelir gan gynlluniau Prifysgol strwythuredig, megis ein rhaglen fentora academaidd.</p>	

	Rhwymedigaeth	Cam gweithredu	Yn parhau/wedi'i drosglwyddo o'r cynllun gweithredu blaenorol?	Dyddiad cau	Cyfrifoldeb	Effaith benodedig y camau gweithredu (mesur llwyddiant)	Sylwadau (dewisol)	Diweddariad cynnydd	Gwir effaith y cam gweithredu (adrodd yn erbyn y mesur llwyddiant)	Canlyniad (yn parhau/wedi'i ddwyn ymlaen/dim camau gweithredu pellach)
--	---------------	----------------	--	-------------	-------------	---	--------------------	---------------------	--	--

PCDI1	Darparu cyfleoedd, cefnogaeth strwythuredig, anogaeth ac amser i ymchwilwyr gymryd rhan mewn o leiaf 10 diwrnod o ddatblygiad proffesiynol pro rata y flwyddyn, gan gydnabod y bydd ymchwilwyr yn mynd ymlaen i ddilyn gyrfaoedd ar draws ystod eang o sectorau cyflogaeth.	1. Byddwn yn datblygu (ac yn cyflawni) cynllun cyfathrebu clir ar gyfer staff ymchwil a'u rheolwyr. Bydd hyn yn gysylltiedig â chylch gweithgareddau blynyddol y Brifysgol, ac yn seiliedig ar feysydd blaenoriaeth y cytunwyd arnynt sy'n gysylltiedig â'r Concordat Datblygu Ymchwilwyr e.e. 10 diwrnod o ddatblygiad proffesiynol, gwobrwyo a chydnabod, gyrfaoedd amrywiol ac ati. 2. Byddwn yn treialu rhaglen fentora ar gyfer staff ymchwil, sy'n defnyddio cynfyfyrwyr Prifysgol Caerdydd.	Nac ydy	2022-23 – bwriedir ei lansio ym mis Hydref 2022 (i'w werthuso a'i addasu, os yw'n briodol, ar gyfer 2023–24 (erbyn Awst 2023) a 2024–25 (erbyn Awst 2024)	Y Tîm Datblygu Sefydliadol a Staff (OSD)/AD/y Tîm Cyfathrebu Mewnol/y Tîm Cyfathrebu Digidol	Mae staff ymchwil a'u rheolwyr yn dangos ymwybyddiaeth o'r gwahanol fathau o ddatblygiad a allai gyfrannu at y lleiafswm o 10 diwrnod o ddatblygiad proffesiynol pro rata y flwyddyn, a'u bod yn fodlon ar y ffyrdd y mae Prifysgol Caerdydd yn cefnogi datblygiad yn ei ystyr ehangaf. Mesurau: Mae o leiaf 60% o staff ymchwil a arolygir (arolwg pwls) yn dangos eu bod (i) yn ymwybodol o'r ystod o gyfleoedd datblygu sydd ar gael iddynt a (ii) yn fodlon arnynt. Mae o leiaf 60% o staff ymchwil a arolygir (arolwg pwls) yn dangos eu bod ymgymryd ag o leiaf 10 diwrnod o ddatblygiad proffesiynol parhaus pro rata y flwyddyn (erbyn y dyddiad cau, sef Gorffennaf 2024)				
	Darparu cyfleoedd, cefnogaeth strwythuredig, anogaeth ac amser i ymchwilwyr gymryd rhan mewn o leiaf 10	3. Gan adeiladu ar gynllun peilot 2021, byddwn yn cynnal a gwerthuso ein 'Raglen	Nac ydy	Medi 2023	Y Gwasanaethau Ymchwil ac Arloesi (RIS) – y Tîm Effaith ac Ymgysylltu/Y Tîm Datblygu	Yr effaith a fwriedir: Cynigir ystod o gyfleoedd datblygu i staff ymchwil sy'n cwmpasu ehangder y rolau ymchwil ac yn eu paratoi ar gyfer gyrfaoedd amrywiol. Canlyniadau/Mesurau llwyddiant:				

	Rhwymedigaeth	Cam gweithredu	Yn parhau/wedi'i drosglwyddo o'r cynllun gweithredu blaenorol?	Dyddiad cau	Cyfrifoldeb	Effaith benodedig y camau gweithredu (mesur llwyddiant)	Sylwadau (dewisol)	Diweddariad cynnydd	Gwir effaith y cam gweithredu (adrodd yn erbyn y mesur llwyddiant)	Canlyniad (yn parhau/wedi'i ddwyn ymlaen/dim camau gweithredu pellach)
--	---------------	----------------	--	-------------	-------------	---	--------------------	---------------------	--	--

	diwrnod o ddatblygiad proffesiynol pro rata y flwyddyn, gan gydnabod y bydd ymchwilwyr yn mynd ymlaen i ddilyn gyrfaedd ar draws ystod eang o sectorau cyflogaeth (parhad).	Cyfnewid Gwybodaeth a Datblygu Effaith' newydd ac yn gweithio i sicrhau bod cyfranogiad y staff ymchwil yn y rhaglen yr un mor uchel, o leiaf, â chyfranogiad grwpiau eraill o staff.			Sefydliadol a Staff (OSD)	(i) caiff cyfranogiad staff ymchwil ei fonitro fel rhan o'n gwaith adrodd blynyddol. (ii) targedau: mae cyfraddau cyfranogiad staff ymchwil yr un mor uchel â chyfranogiad grwpiau eraill o staff (o leiaf) (iii) mae o leiaf 5% o staff ymchwil yn cymryd rhan yn y rhaglen yn ystod y flwyddyn gyntaf. Caiff targedau newydd eu gosod yn flynyddol. (iv) fel y nodwyd uchod, mae o leiaf 60% o staff ymchwil a arolygir (arolwg pwls) yn dangos eu bod yn (i) ymwybodol o'r ystod o gyfleoedd datblygu sydd ar gael iddynt a (ii) fodlon arnynt.				
PCDI6	Monitro, ac adrodd ar gyfranogiad ymchwilwyr a'u rheolwyr mewn gweithgareddau datblygu proffesiynol.	1. Sicrhau bod system ar gael i'w gwneud yn bosibl i ymchwilwyr a'u rheolwyr gofnodi ehangder y gweithgareddau datblygu proffesiynol sy'n digwydd ac yn cyfrannu at o leiaf 10 diwrnod o ddatblygiad pro rata y flwyddyn.	Ydy	Gorffennaf 2025 (mae cerrig milltir allweddol wedi'u nodi yn y golofn effaith)	AD/Y Tîm Datblygu Sefydliadol a Staff (OSD)/Ysgolion	Canlyniad bwriadedig y cam hyn yw cynnig y modd i ymchwilwyr gofnodi ehangder y gweithgarwch datblygu y maent yn ymgymryd ag ef. Canlyniadau: Erbyn diwedd blwyddyn 1 – penderfyniad gan y Brifysgol ar y system briodol ar gyfer cofnodi gweithgarwch datblygu ehangach. Erbyn diwedd blwyddyn 2 – cyfathrebu clir â staff ymchwil a data sylfaen.	Ar hyn o bryd rydym yn adrodd ac yn monitro cyfranogiad ymchwilwyr mewn cyfleoedd datblygu 'ffurfiol' (gan gynnwys ein cynllun mentora academaidd). Ein nod yw galluogi ymchwilwyr i gofnodi eu cyfranogiad ar draws yr ystod o weithgareddau datblygu sydd ar gael.			

	Rhwymedigaeth	Cam gweithredu	Yn parhau/wedi'i drosglwyddo o'r cynllun gweithredu blaenorol?	Dyddiad cau	Cyfrifoldeb	Effaith benodedig y camau gweithredu (mesur llwyddiant)	Sylwadau (dewisol)	Diweddariad cynnydd	Gwir effaith y cam gweithredu (adrodd yn erbyn y mesur llwyddiant)	Canlyniad (yn parhau/wedi'i ddwyn ymlaen/dim camau gweithredu pellach)
--	---------------	----------------	--	-------------	-------------	---	--------------------	---------------------	--	--

PCDM 3	Mae rheolwyr yn neilltuo isafswm o 10 diwrnod y flwyddyn, pro rata, fel y gall hymchwilyr ymgymryd â datblygiad proffesiynol, gan helpu ymchwilyr i sicrhau cydbwysedd rhwng cyflawni eu hymchwil a'u datblygiad proffesiynol eu hunain.	1. Byddwn yn datblygu (ac yn cyflawni) cynllun cyfathrebu clir ar gyfer staff ymchwil a'u rheolwyr. Bydd hyn yn gysylltiedig â chylch gweithgareddau blynyddol y Brifysgol, ac yn seiliedig ar feysydd blaenoriaeth y cytunwyd armynt sy'n gysylltiedig â'r Concordat Datblygu Ymchwilyr e.e. 10 diwrnod o ddatblygiad proffesiynol, gwobrwyo a chydhabod, gyrfaoedd amrywiol ac ati.	Nac ydy	2022-23 – bwriedir ei lansio ym mis Hydref 2022 (i'w werthuso a'i addasu, os yw'n briodol, ar gyfer 2023–24 (erbyn Awst 2023) a 2024–25 (erbyn Awst 2024)	Y Tîm Datblygu Sefydliadol a Staff (OSD)/AD/y Tîm Cyfathrebu Mewnol/y Tîm Cyfathrebu Digidol	Mae rheolwyr staff ymchwil yn dangos eu bod yn ymwybodol o'r gofyniad i gefnogi ymchwilyr i ymgymryd â 10 diwrnod o ddatblygiad proffesiynol. Mesurau: Mae o leiaf 50% o'r reolwyr staff ymchwil a arolygir (arolwg pwls) yn dangos eu bod yn ymwybodol o'r gofyniad				
